Datganiad o Fwriad Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn croesawu ehangder ac amrywiaeth traddodiad, cred a diwylliant y gymuned. Mae'n ceisio creu, cynnal a hyrwyddo cymuned lle mae pob person yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal waeth beth fo'i hil. Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn cadarnhau ei ymrwymiad i bolisi o gyfle cyfartal mewn cyflogaeth a darparu gwasanaethau. Bydd unigolion yn cael eu dewis a'u trin ar sail eu rhinweddau a'u galluoedd perthnasol a byddant yn cael cyfleoedd teg a chyfartal o fewn Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. Yn yr un modd, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i drin yr holl staff, cleientiaid, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn unol â'r polisi hwn. Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn ymrwymo i gadw at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a darparu gwasanaethau teg a chyfartal i bobl o bob hil a chefndir nodweddiadol gwarchodedig eraill. Nod y polisi yw sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd am swydd na defnyddiwr/ymwelydd/gwestai yn cael triniaeth lai ffafriol ar unrhyw sail nad yw'n berthnasol i arfer cyflogaeth dda. Rydym wedi ymrwymo i raglen weithredu i wneud y polisi hwn yn gwbl effeithiol.

Datganiad Polisi Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn ymrwymo i hyrwyddo dim goddefgarwch i hiliaeth ledled Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. Mae hyn yn golygu:

- **Byddwn yn** sefyll yn erbyn hiliaeth ac yn hyrwyddo cymdeithas fwy cynhwysol a chyfartal i bawb.
- **Ni fyddwn yn** goddef rhagfarn hiliol, gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, camdriniaeth, na thrais yn erbyn unrhyw unigolyn.
- **Byddwn yn** sefyll mewn undod, yn dod at ein gilydd, ac yn dweud na wrth hiliaeth, yn ei holl ffurfiau.
- **Byddwn yn** hyrwyddo cysylltiadau hiliol da rhwng pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yng Nghyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- **Byddwn yn** hyrwyddo cyfle cyfartal a theg i bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol gael dyrchafiad.
- **Byddwn yn** dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, aflonyddu, erledigaeth a cham-drin.

Cyfrifoldeb Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Mae gan bob person ar bob lefel gyfrifoldebau penodol. Mae cysylltiadau ac arferion da a chyflawniad cymuned gynhwysol yn dibynnu ar holl aelodau Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru sy'n trin eu cyd-aelodau/defnyddwyr/ ymwelwyr â pharch ac urddas. Felly, disgwylir i bawb:

1. Cydweithredu â mesurau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon.
2. Trin pob aelod o staff mewn modd teg ac anwahaniaethol, gan barchu gwahaniaethau.
3. Peidio â gwahaniaethu lle gallai aelodau o'r fath fod â phŵer dros eraill.
4. Peidio ag annog na cheisio cymell eraill i ymddwyn mewn ffyrdd gwahaniaethol.
5. Peidio ag erlid na cheisio erlid unrhyw un sydd wedi gwneud cwynion am wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth neu gam-drin neu sydd wedi darparu gwybodaeth am wahaniaethu.
6. Dileu cam-drin aflonyddu neu fygwth eraill ar sail hil neu ethnigrwydd, er enghraifft mewn ymdrechion i'w hannog i beidio â gwneud cais am swyddi gwag neu gyfleoedd gwirfoddoli o fewn Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
7. Rhoi gwybod i berson priodol os oes math o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn digwydd.
8. Cymryd camau priodol lle cânt wybod bod gweithred neu weithredoedd o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth wedi digwydd.

Monitro

Polisi Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yw monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws pob agwedd ar ei weithgarwch. Mae hyn yn cynnwys:

- Derbyn a recriwtio staff, gwirfoddolwyr, aelodau, defnyddwyr ac ymwelwyr.
- Nifer a natur y cwynion, achwynion a chamau disgyblu.
- Ymddiswyddiadau a chyfraddau tynnu staff, cleientiaid, cwsmeriaid a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn ôl.

Bydd monitro fel hyn yn datgelu a yw grwpiau penodol yn profi anfantais ac a ydynt yn cael triniaeth deg a chyfartal mewn perthynas â naill ai eu cyflogaeth neu eu defnydd o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. **Pan fydd arferion annheg yn cael eu darganfod drwy'r broses fonitro, cymerir camau angenrheidiol i unioni'r anfantais.**